# Y BWRDD GWEITHREDOL

**14EG O FAI 2018**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd L.M. Stephens (Cadeirydd),

**Y Cynghorwyr:**
H.A.L. Evans, L.D. Evans, D.M. Jenkins, J. Tremlett, P.M. Hughes, P. Hughes-Griffiths, G. Davies a C.A. Campbell.

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
M. James, Prif Weithredwr;
J. Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedau;
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol;
R. Mullen, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd;
G. Morgans, Cyfarwyddwr Addysg a Phlant;
W. Walters, Cyarfwyddwr Adfywio a Pholisi;
P.R. Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad);
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith;
D. Hockenhull, Rheolwr y y Cyfryngau a Marchnata;
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin – 2:00pm - 2:30pm**

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.**

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd E. Dole.

**2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

**3. CWESTIYNAU Â RHYBUDD GAN YR AELODAU.**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi cael eu cyflwyno gan yr Aelodau.

**4. CWESTIYNAU Â RHYBUDD GAN Y CYHOEDD.**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi dod i law gan y cyhoedd.

**5. UNRHYW FATER ARALL Y GALL Y CADEIRYDD OHERWYDD AMGYLCHIADAU ARBENNIG BENDERFYNU EI YSTYRIED YN FATER BRYS YN UNOL AG ADRAN 100B(4)(B) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL, 1972.**

Ni chodwyd unrhyw faterion eraill.

6. **GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD.**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitem ganlynol yn cael ei hystyried, gan fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

7. **CYNLLUN BUSNES LLESIANT DELTA WELLBEING LTD.**

**Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng Nghofnod 6 uchod, ystyried y mater hwn yn breifat gan orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod, gan y byddai'r drafodaeth yn datgelu gwybodaeth eithriedig ynghylch materion ariannol neu faterion busnes unrhyw unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno).**

Ystyriodd y Bwrdd Gweithredol adroddiad yr oedd cynllun busnes manwl 2018/19 wedi'i atodi iddo ar gyfer y Cwmni Masnachu Awdurdod Lleol, sef Llesiant Delta Wellbeing Ltd. Roedd y cynllun busnes wedi'i baratoi fel yr oedd yn ofynnol yn sgil penderfyniadau'r Bwrdd Gweithredol ar 22 Ionawr 2018 a'r Cyngor Llawn yn dilyn hynny ar 14 Chwefror 2018.

Nododd y Bwrdd fod cynllun busnes 2018/19 wedi'i gymeradwyo gan Grŵp Llywodraethu Llesiant Delta Wellbeing a bod angen i'r Bwrdd Gweithredol gymeradwyo'r cynllun a gyflwynwyd er mwyn i Llesiant Delta Wellbeing ddechrau masnachu o 1 Mehefin 2018.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:**

**7.1 Cymeradwyo Cynllun Busnes manwl Llesiant Delta Wellbeing Ltd yn unol â gofynion y cyngor llawn ar 14 Chwefror 2018, ac yn benodol:**

**7.2 Adennill costau sefydlu'r Cwmni drwy drefnu benthyciad rhwng y Cyngor Sir a'r Cwmni ar gyfradd log fasnachol. Bydd y gwerth yn cael ei bennu yng nghynllun busnes manwl y Cwmni a bydd y Bwrdd Gweithredol yn cytuno arno.**

________________________ ________________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**